Coetiroedd Bach yng Nghymru

See all updates

Cynllun grant gyda'r nod o greu Coetiroedd Bach, fel rhan o Goedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Cafodd y dudalen ei diweddaru ar 21 Chwefror 2024. Gweler yr holl ddiweddariadau.

Pwysig

Mae'r rhaglen hon bellach ar gau i geisiadau newydd. Archwiliwch ein cyllid sydd ar gael.

Ai dyma'r cynllun iawn i chi?

- Ydych chi'n berchen ar dir yng Nghymru, neu'n rheoli tir yng Nghymru, neu wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan berchennog y tir i wneud cais ar gyfer y cynllun hwn?
- Ydych chi'n ystyried creu Coetir Bach sy'n glynu wrth egwyddorion Earthwatch?
- Allwch chi gynnwys y gymuned wrth greu a rheoli safle eich coetir?
- Oes angen grant o hyd at £40,000 arnoch ar gyfer un safle, neu hyd at £250k ar gyfer safleoedd lluosog?

Os ydych chi wedi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau hyn, mae'r cynllun Coetiroedd Bach yng Nghymru yn addas i chi.

Trosolwg

Mae'r angen i helpu adferiad natur yn fater brys. Mae gofalu am natur a helpu pobl i ddeall ei phwysigrwydd yn fwy perthnasol nag erioed.

Mae Coetiroedd Bach yn gynllun grant fel rhan o'r rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru.?Rydym yn cynnig grantiau rhwng £10,000 a £40,000 ar gyfer safleoedd (hyd at £250,000 ar gyfer safleoedd lluosog) sy'n cadw at Egwyddorion Coetiroedd Bach.

Beth yw'r Goedwig Genedlaethol i Gymru?

Menter a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw Coedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd yn creu rhwydwaith o goetiroedd a choedwigoedd ar draws Cymru, o dan reolaeth ansawdd uchel.

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn ymestyn ar hyd a lled Cymru. Bydd yn cynnwys ardaloedd trefol a gwledig ill dau – gydag ymrwymiad i greu Coetiroedd Bach a safleoedd coetir Coedwig Genedlaethol i Gymru.

Bydd yn sicrhau amrywiaeth enfawr o fuddion i'r amgylchedd, yr economi a chymdeithas fel a ganlyn:

- bydd yn gwneud cyfraniad pwysig o ran gwarchod natur a mynd i'r afael â mater colli bioamrywiaeth
- bydd yn cynyddu gwaith cynhyrchu pren a dyfir yn lleol - gan ganiatáu i'r diwydiant coedwigaeth lleol ffynnu, creu swyddi a lleihau dibyniaeth ar bren wedi'i fewnforio
- bydd yn darparu mwy o lefydd lle gall pobl ymgolli ym myd natur a threulio amser gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd, ac yn rhoi hwb i dwristiaeth ledled Cymru
- bydd yn cefnogi iechyd a llesiant cymunedau - enghraifft weithredol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ewch i'n gwasanaeth ar-lein i wneud cais nawr a gwiriwch yr adrannau 'sut i wneud cais' isod.

Expand All accordions

Beth yw Coetiroedd Bach?

Coetiroedd Bach yw'r enw ar Goetiroedd Bach yng Nghymru sy'n cael eu hariannu drwy'r cynllun hwn.

Mae'r rhain yn **ardaloedd newydd o goetiroedd trwchus, cynhenid** sy'n dilyn dull Dr Akira Miyawaki o greu coetiroedd. Mae hyn yn golygu coetiroedd sy'n cael eu rheoli'n dda, sy'n hygyrch i bobl ac **sy'n rhoi'r cyfle i gymunedau lleol ymwneud â** choetiroedd a natur. Dylai'r coetir fod **tua 200 metr sgwâr** (tua maint cwrt tenis).

Mae gan Goetiroedd Bach nodweddion ffisegol a chymdeithasol penodol ac arferion monitro gwyddonol:

Nodweddion ffisegol

- Bydd y Coetir Bach ei hun yn mesur **oddeutu 200 metr sgwâr**, gyda lle hefyd ar gyfer peiriannau trwm i wneud gwaith paratoi, felly gall cyfanswm y gofod fod hyd at 500 metr sgwâr. Bydd angen cloddiwr bach i baratoi'r pridd, a bydd angen i dryciau danfon deunydd tomwellt ac atchwanegiadau pridd eraill fynd yno.
- Ni fydd wedi ei ddynodi'n sensitif mewn unrhyw ffordd fel SoDdGA, Ardal Cadwraeth Arbennig, Ramsar neu arall.
- Maen nhw'n cynnwys coed a llwyni cynhenid yn unig.
- Maen nhw'n gynnyrch gwaith ymchwil maes a llenyddiaeth i'r rhywogaethau cynhenid mwyaf addas yn lleol.
- Mae ganddyn nhw bridd sydd wedi'i baratoi yn ôl dull plannu Coetiroedd Bach.
- Maen nhw'n goedwigoedd heb gemegion (gwrteithiau na phlaladdwyr).
- Mae ganddyn nhw 20-25 o rywogaethau gwahanol o goed.
- Mae ganddyn nhw 3 coeden fesul metr sgwâr.
- Maen nhw'n darparu lle i'r coed gael llonydd i dyfu am o leiaf 10 mlynedd (dim gwaith teneuo coed na chynaeafu pren ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel clefydau neu bryderon am ddiogelwch).
- Ni ddylai fod â seilwaith uwchben. Gallai'r coed dyfu hyd at 20 metr neu ragor.
- Ni ddylai fod â seilwaith tanddaearol. Fel arfer mae angen cloddio'r pridd i ddyfnder o 1 metr, ac mae'n rhaid parchu parthau clustogi cyfleustodau.
- mae canghennau, dail, a choed marw yn cael eu gadael i orwedd lle maen nhw wedi disgyn
- Gall yr ardal fod yn unrhyw **siâp/cyfeiriadedd**, ond rhaid i'r coetir **beidio â bod yn gulach na 4m** ar draws ar unrhyw bwynt penodol, heb ymyriadau (fel llwybr). Nid yw lleiniau hir tenau o dir fel gwrychoedd yn addas ar gyfer Coetiroedd Bach.

- Bydd yn ardal agored – dydyn ni ddim am dynnu coed oddi yno i blannu rhai newydd. Mae rhywfaint o brysg neu lystyfiant isel yn iawn, yn ogystal â choed ar ymyl y safle arfaethedig oherwydd gellir o bosibl ymgorffori'r rhain yn y dyluniad.
- Bydd yn cael ei ffensio am y 3 blynedd gyntaf o leiaf gyda mynediad drwy gât.
- Mae ganddyn nhw haen o domwellt (fel gwellt) sydd o leiaf 15cm o ddyfnder.
- Mae gan yr ardal bwynt mynediad d?r. Mae'n bosibl y bydd angen dyfrio'r coed yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o waith cynnal a chadw, felly naill ai rhaid lleoli pwynt mynediad d?r gerllaw neu rhaid bod modd i gerbyd a thancer d?r gyrchu'r safle.
- Ni fydd yn rhwystro hawl tramwy pobl. Y rheswm am hyn yw y bydd y coetir yn tyfu'n drwchus iawn a bydd yn amhosib mynd trwyddo oni bai bod llwybr penodol yn cael ei ymgorffori yn y dyluniad.
- Bydd yn hawdd ei gyrraedd i ddefnyddwyr fel trigolion lleol, plant ysgol, a gweithwyr.

Nodweddion cymdeithasol

- maen nhw'n cynnwys ystafell ddosbarth awyr agored lle y bo hynny'n ymarferol
- mae ganddyn nhw bartner lleol fel gwirfoddolwr neu gr?p cymunedol, neu Awdurdod Lleol
- maen nhw wedi'u plannu gan drigolion lleol, gweithwyr corfforaethol a/neu blant ysgol
- gellir eu defnyddio fel lle i drigolion lleol ddod at ei gilydd ac ar gyfer gwersi awyr agored gyda phlant ysgol
- maen nhw'n galluogi cyfleoedd ymgysylltu i drigolion lleol, gweithwyr corfforaethol a/neu blant ysgol
- maen nhw'n cael eu cynnal (chwynnu/dyfrio/casglu ysbwriel) gan dîm o Geidwaid Coed, sef 4-5 o wirfoddolwyr lleol am y 2 flynedd gyntaf

Gofynion monitro

Gan ddefnyddio methodoleg Earthwatch, dylech fonitro o leiaf dwywaith y flwyddyn am y ddwy flynedd gyntaf ar ôl plannu, yn ddelfrydol trwy wyddoniaeth dinasyddion.

Gallwch gyflwyno'r data monitro a gasglwyd i Earthwatch ar ddiwedd pob tymor tyfu. Darperir manylion mewngofnodi er mwyn i chi fewnbynnu'r data ar y Porth Coetir Bach.

Expand All accordions

Beth mae cynllun grant Coetiroedd Bach yn ei gynnig

Mae'r cynllun hwn ar gyfer sefydliadau, cymunedau ac unigolion sy'n berchen ar leiniau bach o dir neu sydd â rheolaeth drostyn nhw, ac sydd am greu coetiroedd bach newydd wedi'u rheoli ar y cyd â'r gymuned leol.

Bydd y cynllun yn cynnig:

- grantiau o hyd at £40,000 y safle. Gall y cais gwmpasu nifer o safleoedd ond ni all cost pob safle fod yn fwy na £40k, a'r uchafswm grant sydd ar gael fesul cais yw £250k.
- gellir cael hyd at 100% o gyllid
- hyfforddiant cynhwysfawr gan Earthwatch Europe i gynllunio a chreu Coetir Bach (7.5 awr dros 3 sesiwn ynghyd â hyfforddiant a chefnogaeth barhaus) (hanfodol)

- aelodaeth o'r rhwydwaith Coetiroedd Bach dan arweiniad Earthwatch Europe (hanfodol)
- cyllid cyfalaf a refeniw
- cymorth gan swyddogion cyswllt Coedwig Genedlaethol i Gymru ynghylch rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru a sut i ddangos y canlyniadau

Bydd 3 rownd o gyllid Coetiroedd Bach yng Nghymru ar gael yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Darllenwch yr adran 'Terfynau amser gwneud cais a dyddiadau allweddol' i gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen.

Ariannu

Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir ar eu rhan gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae Earthwatch Europe yn bartner allweddol sy'n darparu hyfforddiant ac yn monitro safonau'r Coetiroedd Bach.

Cronfa ar gyfer gwneud gwaith cyfalaf yw hon yn bennaf, felly dylai'r rhan fwyaf o'ch costau fod yn gostau cyfalaf. Mae canllawiau ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel costau refeniw a chyfalaf ar gael isod yn yr adran 'Pa gostau allwch chi wneud cais amdanyn nhw?'

Expand All accordions

Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i unrhyw un sy'n berchen ar dir neu sy'n rheoli tir yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw a pherchnogion preifat. Mae'n rhaid i chi fod â rheolaeth lwyr ar y tir, neu ganiatâd ysgrifenedig gan berchennog y tir. Gallwch wneud cais mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, neu ar ran tirfeddiannwr, ond mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn gyfreithiol rwymol ac mae'n rhaid nodi'n glir pwy yw'r partner arweiniol. Bydd angen i chi gael y caniatâd, y trwyddedau a'r cydsyniadau cywir mewn lle hefyd i gynnal gweithgarwch.

Expand All accordions

Sesiynau gwybodaeth gweminar a Diwrnodau Agored

Bydd Tîm Ymgysylltu a Phartneriaid Cyflwyno Cronfa Treftadaeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Earthwatch, yn cynnal tair gweminar/sesiwn wybodaeth ar-lein a dau Ddiwrnod Agored ar safleoedd Coetiroedd Bach.

Cynhelir y sesiynau gwybodaeth a'r Diwrnodau Agored hyn er mwyn i ddarpar ymgeiswyr ddod draw i ofyn unrhyw gwestiynau i'r Gronfa Treftadaeth, Swyddogion Cyswllt y Goedwig Genedlaethol ac Earthwatch (bydd Wardeniaid Coed hefyd ar gael i rannu eu profiadau). Cynhelir y rhain ar y dyddiadau canlynol (amserau i'w cadarnhau):

Gweminarau:

- Dydd Mawrth 5 Mawrth 10am - 12pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.
- Dydd Llun, 18 Mawrth 12pm - 2pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.
- Dydd Mercher 10 Ebrill, 4pm - 6pm. Cofrestrwch ar gyfer y weminar hon trwy Teams.

Diwrnodau Agored:

- 12 Mawrth, 10.30am-12.30pm yn y Coetir Bach, Parc Tref Caergybi. Cofrestrwch ar gyfer y diwrnod agored hwn.
- 21 Mawrth, 10.30am-12.30pm yn y Coetir Bach, Parc Pencoedtre, Y Barri. Cofrestrwch ar gyfer y diwrnod agored hwn.

Expand All accordions

Pa brosiectau allwch chi wneud cais amdanyn nhw?

Mae'n rhaid i'ch prosiect gynnwys y nodweddion canlynol:

1. creu Coetir Bach (Tiny Forest) sy'n bodloni'n llawn meini prawf Coetiroedd Bach (gweler adran 'Beth yw Coetiroedd Bach' y canllawiau hyn).
2. Cyflwyno coetiroedd hygyrch i bawb eu mwynhau. Dylai'r Coetir Bach fod yn hygyrch i'r gymuned y mae wedi'i leoli ynddi. Mae croeso i ysgolion wneud cais. Maent wedi cael eu cefnogi mewn rowndiau blaenorol ond mae angen iddynt ddangos sut y maent yn cynnwys y gymuned yn weithredol ac yn ei galluogi i gyrchu'r coetir trwy weithgareddau penodol.
3. cynnwys trigolion lleol, gwirfoddolwyr, awdurdodau lleol neu ysgolion
4. cynnal y Coetir Bach gan ddefnyddio "tîm o geidwaid coed", sef gwirfoddolwyr am o leiaf 2 flynedd ar ôl i'r prosiect orffen
5. diwallu anghenion pobl leol fel man cyhoeddus a chyfrannu at wasanaethau ecosystemau yn yr ardal leol.
6. dangos buddion lluosog sy'n cwmpasu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol
7. ystyried mapiau datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
8. gwirio am unrhyw faterion sensitif yn y safle drwy gyfeirio at Fap Cyfle Coetir y Llywodraeth

Mae gennym ddiddordeb penodol yn y canlynol:

- ardaloedd trefol sydd heb fannau gwyrdd
- ardaloedd a fydd yn galluogi cysylltiad rhwng ardaloedd o ofod naturiol (fel coetir a glaswelltir o ansawdd uchel)

Expand All accordions

Pa gostau allwch chi wneud cais amdanyn nhw?

Cronfa i wneud gwaith cyfalaf yw hon yn bennaf. Gellir dyrannu uchafswm o 13% o bob grant i wariant refeniw. Yn ogystal, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio'r prosiect a chostau uniongyrchol eraill ar gyfer rhoi'r prosiect ar waith.

Dogfen Arweiniad Costau

Cyfeiriwch at y dudalen Arweiniad Cyllideb i'ch helpu ysgrifennu eich cais am ariannu – mae'r arweiniad hwn yn cynnwys yr holl gostau a gwybodaeth am y gyllideb i'ch helpu cynllunio costau eich prosiect.

Expand All accordions

Terfynau amser gwneud cais a dyddiadau allweddol

Bu dwy rownd flaenorol o Coetiroedd Bach yng Nghymru, a'r drydedd rownd hon yw'r un olaf.

Rownd tri

- **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12 hanner dydd 8 Mai 2024**
- bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud: dechrau Gorffennaf 2024
- sesiynau hyfforddi Earthwatch (i ymgeiswyr llwyddiannus): Dydd Llun 15 Gorffennaf a dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024 (amserau i'w cadarnhau). Mae angen dod i'r **ddwy** sesiwn hyfforddi. Bydd pob sesiwn tua thair awr o hyd.
- dyddiad cwblhau eich prosiect: 31 Mawrth 2025

Expand All accordions

Camau i'w cymryd cyn i chi wneud cais

Y disgwyl yw y bydd **pob ymgeisydd** yn cysylltu â Swyddog Cyswllt Coetir ei ranbarth er mwyn cael cyngor a chael y cydsyniadau neu'r caniatâd angenrheidiol gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), neu gyrff eraill - fel Cadw - cyn cyflwyno cais.

Os nad yw pob caniatâd/cydsyniad yn eu lle gennych, mae angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais am gydsyniad neu ganiatâd.

Dim ond ar ôl i bob cydsyniad/caniatâd gael ei roi y bydd cyllid yn cael ei ryddhau, ac **mae'n bosibl y bydd grantiau'n cael eu tynnu'n ôl os na fydd y rhain wedi'u derbyn o fewn chwe mis i ddyddiad dyfarnu'r grant**.

Asesiadau o'r effaith amgylcheddol

Ni fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) arnoch, oni bai bod eich Coetir Bach yn mynd i gael ei blannu ar safle dynodedig. Os yw o fewn safle dynodedig, bydd angen barn AEA arnoch.

Berchnogaeth tir

Rhaid dangos tystiolaeth o berchnogaeth tir. Mae angen i ni weld copi swyddogol cyfredol gan y Gofrestrfa Tir sy'n dangos eich bod yn berchen ar y tir (neu ar gyfer tir heb ei restru, y gweithredoedd perthnasol). Dylid atodi'r rhain gyda'ch cais.

Rhaid darparu tystiolaeth i ddangos mai tir ar les yw'r tir dan sylw ac mae angen inni weld copi o fanylion perchennog y tir a'r les. Mae angen inni hefyd weld bod perchennog y tir wedi rhoi caniatâd ichi ymgymryd â'r prosiect arfaethedig, yn ogystal â pharhau i'w fonitro a'i reoli ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Rhaid i chi ddal les fel y bo'n berthnasol i'r hyn a amlinellir isod neu mae angen i'r tirfeddiannwr ymrwymo i delerau'r grant.

- sefydliad nid-er-elw: rhaid bod o leiaf pum mlynedd yn weddill ar eich les ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- perchennog preifat: rhaid bod o leiaf deng mlynedd yn weddill ar eich les ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect

Os mai tir sy'n eiddo i drydydd parti neu drydydd partïon lluosog yw testun eich prosiect, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog gael ei wneud yn grantï ar y cyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, yn hytrach na gwneud y perchennog yn grantï ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddynt lofnodi llythyr ychwanegol yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw delerau grant sy'n ymwneud â'u heiddo.

Yn yr achos hwn, dylid rhoi cytundeb cyfreithiol ar waith hefyd rhwng pob perchennog tir a'r grantï. Nid oes ffurf ragnodedig ar gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb perchennog trydydd parti.

Fel lleiafswm, dylai'r cytundebau gynnwys y canlynol:

- cadarnhad ynghylch sut mae'r tir wedi'i ddal (rhydd-ddaliad neu ar brydles)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran y perchennog i gynnal a chadw'r eiddo a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau'r grant (fel y bo'n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw warediad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti
- cadarnhad y bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir y trydydd parti tan bum mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect

Bydd angen cwblhau'r cytundebau a'u rhoi ar waith cyn rhyddhau unrhyw arian grant ar gyfer gwaith ar unrhyw dir neu adeilad sy'n eiddo i drydydd parti.

Rheoli cymhorthdal

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Ceir cymhorthdal pan fydd awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol o arian cyhoeddus sy'n rhoi mantais economaidd i'r derbynnydd, lle na ellid dod o hyd i gymorth cyfatebol ar delerau'r farchnad. Bydd y rhan fwyaf o'n grantiau naill ai heb fod yn gymhorthdal neu'n gymhorthdal cyfreithlon sy'n bodloni gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Ein cyfrifoldeb ni yw asesu a yw grant yn gymhorthdal ac mae ein hasesiad rheoli cymhorthdal yn rhan bwysig o'ch cais. Gofynnwn i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion allweddol a rhoi unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnom yn rhesymol i gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.

Gweithio ar dir preifat

Gall prosiectau ddarparu gwaith neu weithgareddau ar dir preifat, cyn belled â bod unrhyw fudd cyhoeddus yn amlwg yn drech nag unrhyw fudd preifat posibl. Hefyd, cyn belled nad yw rheolau rheoli cymhorthdal yn cael eu torri.

Expand All accordions

Sut y byddwn yn asesu ceisiadau?

Byddwn yn asesu eich prosiect ar sail ei botensial i fodloni'r meini prawf Coetiroedd Bach. Wrth gyflwyno Coetir Bach rydych yn cyflawni canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol. Mae'r maen prawf hwn yn adran 'Beth yw Coetiroedd Bach' yr arweiniad hwn.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y canlynol:

- ardaloedd trefol sydd heb fannau gwyrdd
- ardaloedd a fydd yn golygu y gellir cael cysylltiad â gofod naturiol

Gofynnir i chi lawrlwytho a llenwi ein rhestr wirio mesur llwyddiant hefyd.?Gellir mesur y meini prawf Coetir Bach yn ôl un neu fwy o'r dangosyddion ar y rhestr.

Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae pedair egwyddor fuddsoddi bellach yn llywio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Ar gyfer y rhaglen Coetiroedd Bach - drwy fodloni'r meini prawf Coetiroedd Bach, rydych wrth reswm yn bodloni un neu fwy o'n Hegwyddorion Buddsoddi.

Rydym wedi darparu arweiniad penodol yn y Nodiadau Cymorth Ymgeisio Coetiroedd Bach ar sut i ymdrin â'r Meini Prawf Coetir Bach o dan adran Egwyddorion Buddsoddi ein ffurflen gais.

Bydd yr egwyddorion buddsoddi a'n mentrau strategol yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb yn y dyfodol.

Expand All accordions

Cyflawni eich prosiect

Bydd y canllawiau Derbyn Grant yn cael eu hanfon at bob prosiect a ddyfernir a bydd yn rhoi manylion ar sut y byddwch yn derbyn eich cyllid a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych.

Expand All accordions

Y Gymraeg a chydnabyddiaeth

Mae angen i chi gynnwys y Gymraeg yn eich prosiect, a dweud wrthym sut y byddwch yn gwneud hyn yn eich ffurflen gais. Gellir cynnwys costau cyfieithu yn eich cyllideb.

Bydd angen i chi gydnabod eich grant fel y nodir yn ein canllawiau ar sut i gydnabod eich grant Llywodraeth Cymru.

Ariennir y Grant Coetiroedd Bach yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gweinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd angen i chi gydnabod EarthWatch fel partner cyflawni hefyd.

Expand All accordions

Sut i wneud cais

Dilynwch y camau isod:

1. ewch i'n porth ymgeisio a chofrestrwch gyfrif (neu fewngofnodwch os ydych wedi gwneud cais o'r blaen)
2. o'r gwymplen, dewiswch £10,000 i £250,000

Noder: Nid oes Ffurflen Gais Coetiroedd Bach benodedig. Dylech ddilyn Nodiadau Cymorth Ymgeisio'r Rhaglen Coetiroedd Bach yn ofalus ac ateb pob cwestiwn yn ein ffurflen gais am grant £10,000 i £250,000.

Expand All accordions

Dogfennau ategol

Please download and fill out the specific Coetiroedd Bach?/ Tiny Forests in Wales programme?supporting document as below. This needs to be submitted as an attachment to your application.

- measuring success checklist – this will help us check how your project meets the Tiny Forest Criteria

Expand All accordions

Rheoli eich data

I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd eich data'n cael ei brosesu dan y rhaglen grantiau hon, gweler ein polisi preifatrwydd. Byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw ofynion prosesu data ychwanegol sy'n benodol i'r rhaglen os dyfernir grant.

Expand All accordions

Gwneud cwyn

Deallwn y gallai ein penderfyniad fod yn siom i chi.

Does dim hawl apelio am y cynllun Coetiroedd Bach yng Nghymru. Allwn ni ddim adolygu ein penderfyniad oni bai y gallwch chi wneud cwyn ffurfiol am y modd rydym ni wedi ymdrin â'ch cais. Mae gennym broses gwynion dau gam ar gyfer y gronfa hon.

Er mwyn i ni allu ystyried ac ymchwilio i'r g?yn, bydd yn rhaid i chi allu dangos y canlynol:

- na wnaethom ni ddilyn y gweithdrefnau a gyhoeddwyd ar gyfer asesu eich cais
- ein bod wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais
- na wnaethom ni gymryd sylw o wybodaeth berthnasol

Rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig **o fewn 10 diwrnod gwaith** ar ôl derbyn penderfyniad am eich cais. Mae'n rhaid i chi anfon eich cwyn at: enquire@heritagefund.org.uk

Ein nod yw cydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu i ddechrau gan un o'n Cyfarwyddwyr Cenedl ac Ardal, sy'n annibynnol ar baneli argymhellion a phenderfynu ar gyfer y gronfa hon.

Ein nod yw cyfleu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg i chi gyflwyno'ch cwyn.

Am gymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu e-bostiwch enquire@heritagefund.org.uk.

Newidiadau i'r canllawiau hyn

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth defnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl drwy'r dudalen we hon.

11 Medi 2023: eglurhad ynghylch cysylltiadau'r rhaglen hon â rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru.

6 Hydref 2023: Ychwanegwyd templed costau newydd.

19 Rhagfyr 2023: diweddariad i'r neges wybodaeth ar frig y dudalen.

21 Chwefror 2024: Mae dyddiadau ymgeisio wedi'u diweddaru, ac mae arweiniad cyllideb newydd wedi'i ychwanegu fel tudalen ar wahân. Mae'r nodiadau cymorth ymgeisio wedi'u hychwanegu oherwydd bod ein ffurflenni cais wedi newid. Mae'r gofynion ar gyfer y nodweddion ffisegol wedi'u cyfuno yn yr adran 'Beth yw Coetiroedd Bach?'.

Caiff Grant Coetiroedd Bach yng Nghymru ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

The logos of The National Lottery Heritage Fund and the Welsh Government

The logos of the National Forest for Wales and Earthwatch Tiny Forest

Nodiadau cymorth ymgeisio: Coetiroedd Bach yng Nghymru

See all updates

Mae'r arweiniad ymgeisio hwn ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cais i'r cynllun Coetiroedd Bach am grantiau rhwng £10,000 a £40,000 ar gyfer safleoedd unigol (neu hyd at £250,000 ar gyfer safleoedd lluosog).

Cafodd y dudalen ei diweddaru ar **28 Mawrth 2024.**

Pwysig

Nid oes Ffurflen Gais Coetiroedd Bach yng Nghymru benodedig. Felly, dylech ddilyn y cyfarwyddiadau isod yn ofalus fel arweiniad i chi wrth ateb y cwestiynau yn ein ffurflen gais grant safonol £10,000 i £250,000 ar y porth. Defnyddiwch hwn ochr yn ochr ag Arweiniad Ymgeisio'r Rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru.

Defnyddiwch y dudalen hon:

- i weld pa gwestiynau sy'n ymddangos yn y cais
- am arweiniad ar y ffordd orau o ateb cwestiynau'r cais
- dewch o hyd i arweiniad ar sut i ffitio meini prawf y Rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru i'n ffurflen gais safonol

Mae terfyn geiriau i bob cwestiwn; fodd bynnag, nid oes angen i chi gyrraedd hwn. Dim ond yr wybodaeth y gofynnwn amdani sy'n berthnasol i'ch prosiect y mae angen i chi ei chynnwys.

Y camau cyntaf

1. Ewch i'n porth ceisiadau a chofrestru cyfrif (neu fewngofnodi os ydych wedi gwneud cais yn y gorffennol)
2. o'r gwymplen, dewiswch o £10,000 i £250,000
3. cyflwynwch eich cais gan atodi'r holl ddogfennau ychwanegol gofynnol, gan gynnwys dogfennau ategol sy'n benodol i'r rhaglen Coetiroedd Bach

Ynghylch eich gweledigaeth

Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.

Byddwn yn defnyddio eich ateb i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

Rydym yn cyhoeddi manylion ceisiadau a dyfarniadau grant ar ein gwefan ac mewn cronfeydd data cyhoeddus. Mae hyn yn gweddu i'n hymrwymiad i dryloywder ac egwyddorion data agored. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu wrth ateb y cwestiwn hwn i ddisgrifio'ch prosiect.

Dywedwch wrthym beth rydych yn gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect.

Ar gyfer eich cais Coetiroedd Bach, ystyriwch y canlynol hefyd:

- pam rydych eisiau creu Coetir Bach
- sut rydych yn meddwl y bydd eich syniad yn cyfrannu at ddatblygiad y rhwydwaith Coetiroedd Bach a'r Goedwig Genedlaethol
- ar beth y byddwch yn gwario'r ariannu (yn gyffredinol). Mae lle ychwanegol ar gyfer cyllideb lawn yn ddiweddarach yn y ffurflen gais. Cofiwch y gellir defnyddio uchafswm o 13% o'r grant hwn at ddibenion refeniw.
- disgrifio'r hyn yr ydych yn credu yw'r rhwystrau i gyfranogiad eich cymuned benodol
- sut y caiff unigolion a chymunedau eu cefnogi i gymryd rhan
- sut y byddwch yn sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn eiddo i'r gymuned ac yn cael eu cyflwyno dros y gymuned, gan y gymuned ac y gall "Ceidwaid" gwirfoddol gael eu recriwtio
- sut y byddwch yn cynnwys y Gymraeg a/neu ieithoedd cymunedol yn eich prosiect

Fel rhan o'r rhaglen Goedwig Genedlaethol, mae tair thema ychwanegol. Dylai ymgeiswyr ddisgrifio sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at o leiaf un o'r themâu hyn:

- lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- cefnogi twristiaeth a'r economi
- cefnogi neu gyflwyno sgiliau a hyfforddiant

[Maes testun - 150 gair]

Ynghylch eich ffocws treftadaeth

Dywedwch wrthym am y dreftadaeth y byddwch yn canolbwyntio arni fel rhan o'r prosiect hwn.

Rhowch ddisgrifiad o'r dreftadaeth naturiol fel y mae heddiw. Dylech gynnwys y fath wybodaeth â:

- lleoliad
- cyflwr presennol y tir
- unrhyw rywogaethau neu nodweddion pwysig neu warchodedig, dynodiadau archeolegol megis Henebion Cofrestredig ac Anghofrestredig (SAMs a USAMs)
- maint y safle
- defnyddiau presennol
- cyfranogiad cymunedol a sut y byddant yn elwa

Dylech ystyried mapiau datganiad ardal Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), arweiniad Safon Coedwigaeth y DU a Map Cyfleoedd Coetir 2021 i gael arweiniad ar sensitifrwydd tebygol safle arfaethedig o ran plannu newydd.

Peidiwch â defnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am eich prosiect, neu beth fydd yn digwydd yn ystod eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi am hyn yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun - 500 gair]

A yw'r dreftadaeth hon mewn perygl?

Dylech ateb ydy i'r cwestiwn hwn a darparu'r wybodaeth isod.

Esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, sut mae'n cael ei rheoli ar hyn o bryd a chan bwy, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Ystyriwch y canlynol: a yw natur (cynefinoedd a rhywogaethau) ar y safle a/neu yn eich ardal leol o dan fygythiad a sut y bydd y prosiect hwn yn helpu.

Ni fydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) oni bai bod eich Coetir Bach yn cael ei phlannu ar safle dynodedig. Os yw o fewn safle dynodedig, bydd angen barn AEA arnoch.

[Maes testun - 500 gair]

Ynghylch eich prosiect

Beth yw teitl eich prosiect?

Rhowch deitl neu enw i ni allu cyfeirio at eich prosiect.

Dechreuwch enw/teitl eich prosiect gyda **#COED3**. Er enghraifft, #COED3 Beddgelert neu #COED3 Maes G.

Mae hyn yn ein helpu i adnabod eich cais yn gywir, a gallai methu â gwneud hyn olygu bod eich cais yn methu'r dyddiad cau.

Bydd hwn yn cael ei weld gan y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw bostiadau cyhoeddus a wneir am eich prosiect a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Gwnewch yn si?r eich bod chi'n dewis teitl rydych chi'n hapus i amrywiaeth eang o bobl ei weld.

Rydym yn eich annog i gadw eich teitl yn fyr ac yn ddisgrifiadol.

[Mewnbynnu testun - 255 nod]

Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Rhowch amserlen ar gyfer eich prosiect.

Dylech dderbyn penderfyniad ar eich cais Coetiroedd Bach yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2024.

Ar gyfer y rownd hon o'r Rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru, rhaid i'ch prosiect gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.

Ble mae eich prosiect yn digwydd?

Os yw eich prosiect yn digwydd ar fwy nag un safle, dywedwch wrthym ble y bydd y rhan fwyaf o'ch prosiect yn digwydd.

- yr un lle â chyfeiriad fy sefydliad [Blwch ticio]
- rhywle arall [Blwch ticio]

Os rhywle arall:

Dywedwch wrthym beth yw cyfeiriad eich prosiect.

[Nodi'r cod post > dewis y cyfeiriad > golygu manylion y cyfeiriad a ddewiswyd]

Rydym yn deall efallai nad oes gennych god post. Dywedwch wrthym beth yw'r cod post agosaf at leoliad eich prosiect.

Ydych chi eisiau ychwanegu cyfeirnod grid?

Ychwanegwch gyfeirnod grid os yw eich prosiect yn cael ei gynnal ar draws ardal fawr, ar fwy nag un safle neu mewn lle sy'n anodd ddod o hyd iddo gan ddefnyddio cod post. Er enghraifft, cofeb mewn lleoliad anghysbell neu ardal benodol o fewn tirwedd fwy.

Defnyddir cyfeirnodau grid i ddod o hyd i union leoliad ar fap. Gallant edrych yn wahanol gan ddibynnu ar ba ran o'r Deyrnas Unedig y maent yn cyfeirio ati. Er enghraifft:

- yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae cyfeirnodau grid fel arfer yn edrych fel hyn: SJ33889035

I gael canlyniad mwy cywir, dylech ddefnyddio cyfeirnodau grid gydag 8 neu 10 rhif. Gallwch ddod o hyd i gyfeirnodau grid ar gyfer y safleoedd neu'r ardaloedd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect trwy ddefnyddio offeryn fel OS Grid Reference Finder.

- Nac ydym, nid ydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Ticiwch y blwch]
- Ydym, rydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Ticiwch y blwch]

Os ydym: Rhowch gyfeirnod grid [Maes testun – 20 cymeriad]

Os hoffech ychwanegu cyfeirnod grid arall, bydd modd i chi ychwanegu mwy ar y dudalen nesaf.

Mwy o wybodaeth:

Rhowch fwy o wybodaeth am y cyfeirnod grid. Er enghraifft, enw'r safle neu ddisgrifiad o'r ardal y mae'n ei chwmpasu.

[Maes testun – 50 gair]

A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gennym ynghylch y prosiect hwn?

Os ydych wedi siarad ag unrhyw un yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am eich prosiect, dywedwch wrthym am y cyngor a gawsoch a sut rydych wedi defnyddio'r cyngor hwnnw i ddatblygu eich prosiect. Bydd gennych gyfle yn y cwestiwn nesaf i ddweud wrthym am unrhyw gyngor a gawsoch gan unrhyw un y tu allan i'r Gronfa Treftadaeth.

[Maes testun - 500 gair]

A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gan unrhyw un arall am y prosiect hwn?

Dylech ateb ydw i'r cwestiwn hwn. O dan y cwestiwn hwn, dylech gynnwys unrhyw gyngor a gawsoch gan CNC, Llais y Goedwig, Cadw, Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor Sir, eich Ymddiriedolaeth Archeolegol leol neu sefydliadau cymunedol perthnasol eraill yn eich ardal. Yn benodol, nodwch unrhyw gymorth yr ydych wedi'i dderbyn gan swyddogion cyswllt Coedwig Genedlaethol i Gymru ynghylch y rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru a sut i ddangos y canlyniadau. Enwch yr unigolion yr ydych wedi siarad â nhw os yn bosibl.

Dywedwch wrthym hefyd a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol arall am eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect
- unrhyw gyngor ar gynnig y prosiect, megis gan bensaer neu gadwraethwr
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio a/neu ganiatâd adeilad rhestredig, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu archeolegydd
- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy'n berthnasol i'w profiad o lygad y ffynnon

[Maes testun - 500 gair]

Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Rhowch drosolwg o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Er enghraifft, disgrifiwch unrhyw:

- weithgareddau y byddwch yn eu gwneud
- digwyddiadau y byddwch yn eu cynnal
- eitemau neu adnoddau y byddwch yn eu creu
- eitemau neu adeiladau treftadaeth y byddwch yn eu hadfer
- tirweddau y byddwch yn eu gwella

Ar gyfer gwaith cyfalaf: Rhowch fanylion y gwaith a'r costau gan gofio bod arian refeniw yn uchafswm o 13% o'r grant hwn. Yn ogystal, gellir defnyddio hyd at 10% o'r elfen gyfalaf ar gyfer cynllunio'r prosiect a chostau gweithredu prosiect uniongyrchol eraill. Cyfeiriwch at yr Arweiniad Cyllideb i weld rhagor o wybodaeth am gostau cyfalaf.

Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw diben eich prosiect.

Dylai eich cynllun prosiect ddarparu gwybodaeth fanylach am bob elfen o'ch prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?

Dylech ateb bydd i'r cwestiwn hwn.

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased. Gall hwn gynnwys gwaith ffisegol ar dirweddau, byd natur ac adeiladau, atgyweirio, cadwraeth, adeiladu o'r newydd, digideiddio, neu waith i sefydlogi cyflwr gwrthrychau.

Enghreifftiau o waith cyfalaf:

- plannu coed
- creu adeilad lloches neu ystafell ddosbarth awyr agored
- gosod paneli dehongli

Mae'r rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru ar gyfer tirfeddianwyr a/neu'r rhai sydd â rheolaeth lawn dros dir felly mae'n bwysig i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- A oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- A oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- A oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem o dreftadaeth. Os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni. Os oes gennych un, uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- enw'r sefydliad partner
- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem o dreftadaeth
- os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni

[Maes testun - 500 gair]

Uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

[Dewis ffeil]

Rhaid dangos tystiolaeth o berchnogaeth ar dir fel rhan o'r Rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru. Mae angen i ni weld copi swyddfa diweddar gan y Gofrestrfa Tir yn dangos mai chi sy'n berchen ar y tir (neu ar gyfer tir nad yw'n gofrestredig, y gweithredoedd perthnasol).

Rhaid darparu tystiolaeth o dir sydd wedi'i lesio ac mae angen i ni weld copi o'r les, ochr yn ochr â chaniatâd y tirfeddiannwr y gallwch ymgymryd â'r prosiect arfaethedig.

Rhaid i chi ddal les fel y bo'n berthnasol i'r hyn a amlinellir isod neu mae angen i'r tirfeddiannwr ymrwymo i delerau'r grant.

- sefydliad nid-er-elw: rhaid bod o leiaf pum mlynedd yn weddill ar eich les ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- perchennog preifat: rhaid bod o leiaf deng mlynedd yn weddill ar eich les ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect

A oes angen unrhyw ganiatâd arnoch i wneud y gwaith cyfalaf?

Disgwylir y bydd **pob ymgeisydd** yn dod o hyd i unrhyw ganiatâd angenrheidiol gan yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), neu gyrff eraill – fel Cadw – cyn cyflwyno cais.

Os nad oes gennych eich holl ganiatadau yn eu lle, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais am ganiatâd.

Cyfeiriwch at dudalen dogfennau ategol y rhaglen TWIG i lawrlwytho'r cynllun Coetiroedd a'r rhestr wirio caniatadau. Dylid cyflwyno'r rhain gyda'ch cais.

Enghreifftiau o'r hyn y gallai fod angen caniatâd ar ei gyfer:

- cydsyniad gan berchennog ased treftadaeth
- hawliau mynediad gan berchennog tir
- caniatâd adeilad rhestredig
- caniatâd cynllunio gan y cyngor
- cydsyniad i recordio sain neu dynnu lluniau o unigolion

A yw arolwg cyflwr wedi'i gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

Rhowch wybod i ni am unrhyw arolygon ecolegol neu archeolegol sydd wedi'u cwblhau ar y tir nad yw'n dod o dan eich Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

[Maes testun - 500 gair]

A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?

Dywedwch wrthym os yw'r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

- cyfamod Cyfyngol sy'n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu'r eiddo
- cyfyngiad sy'n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu'r eiddo

[Maes testun - 500 gair]

A yw'r dreftadaeth hon ar y Gofrestr Mewn Perygl?

Atebwch nac ydy i'r cwestiwn hwn.

A fyddwch yn creu unrhyw waith digidol fel rhan o'ch prosiect?

Atebwch nac ydy i'r cwestiwn hwn.

A fyddwch yn caffael unrhyw adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth fel rhan o'ch prosiect?

Atebwch nac ydy i'r cwestiwn hwn. Ni chaniateir caffael tir o dan y cynllun hwn.

Mae ein hariannu'n ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Dywedwch wrthym a ydych o'r farn bod yr ariannu y gwnaed cais amdano yn Gymhorthdal o dan y Ddeddf ac am unrhyw gyngor yr ydych efallai wedi'i geisio.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Cael gwybod mwy am reoli cymhorthdal yn adran Camau i'w Cymryd cyn i chi wneud cais arweiniad y rhaglen.

[Maes testun - 500 gair]

Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Rhoddir Statws Coedwig Genedlaethol i bob prosiect Coetiroedd Bach a ariennir drwy'r rhaglen ar ôl cwblhau'r prosiect yn llwyddiannus. Darllen mwy am y Goedwig Genedlaethol i Gymru.

Bydd angen i chi ddweud wrthym sut y byddwch yn cynnal diddordeb cymunedol er mwyn sicrhau bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw a sut y byddwch yn cadw'r Coetir Bach gan ddefnyddio tîm o geidwaid coed gwirfoddol am o leiaf ddwy flynedd ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

[Maes testun - 500 gair]

Ynghylch am yr angen am eich prosiect

Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd?

Mae'r gronfa hon yn gystadleuol a bydd angen i chi esbonio eich cymhellion dros wneud y cais hwn.

Beth am y lleoliad sy'n gwneud hwn y peth iawn i'w wneud nawr?

Ystyriwch ddweud wrthym:

- Beth yw'r defnydd o'r tir ar hyn o bryd a beth yw ei gyflwr
- A oes pwysau datblygu penodol ar y tir?
- A oes cyfle unwaith ac am byth i ailgysylltu coetiroedd ynysig?
- A yw'r gymuned wedi bod yn awyddus i wella neu greu coetir yn eu hardal?
- Sut y bydd Coetir Bach yn newid eich ardal leol
- Am y bobl/gymuned y byddwch yn gweithio gyda nhw, sut y byddant yn cymryd rhan a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud iddynt
- Sut fydd y Coetir Bach yn cyfrannu at y Goedwig Genedlaethol i Gymru

[Maes testun - 500 gair]

A oes cymuned benodol y mae eich prosiect wedi ymrwymo i'w gwasanaethu? Dewiswch unrhyw un sy'n berthnasol.

Dewiswch o'r rhestr isod i adlewyrchu pwy fydd eich prosiect yn ei gefnogi. Dewiswch unrhyw a phob un sy'n berthnasol, neu dewiswch 'dim un o'r uchod' os nad yw hyn yn berthnasol i'ch prosiect.

Gallwch ddweud mwy wrthym am y gymuned benodol yr ydych yn gweithio gyda hi o dan y cwestiwn Egwyddorion Buddsoddi isod am gynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.

Os ydych yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed fel rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi fod wedi rhoi polisïau ac arferion diogelu ar waith. Dylech hefyd sicrhau bod lles staff y prosiect, cyfranogwyr ac ymwelwyr yn cael ei ystyried trwy gydol eich prosiect.

Dylech wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd yr ydych yn cyflwyno eich prosiect neu wasanaethau fel y gall pawb gymryd rhan.

- Cymunedau sy’n profi annhegwch, gwahaniaethu neu anghydraddoldeb ethnig neu hiliol [Blwch ticio]
- Cymunedau ffydd [Blwch ticio]
- Pobl sydd wedi mudo a/neu sydd â phrofiad o’r system fewnfudo [Blwch ticio]
- Pobl f/Fyddar, anabl, dall, â golwg rhannol a/neu niwrowahanol [Blwch ticio]
- Pobl h?n (65 oed a throsodd) [Blwch ticio]
- Pobl iau (o dan 25 oed) [Blwch ticio]
- Menywod a merched [Blwch ticio]
- Pobl LHDTC+ [Blwch ticio]
- Pobl sydd o dan anfantais addysgol neu economaidd [Blwch ticio]
- Ddim un o'r uchod [Blwch ticio]

Rydym yn defnyddio’r Safon Data Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiad i’n helpu deall pwy mae ein hariannu'n ei gyrraedd. Os ydych chi'n meddwl bod 75% neu fwy o'r bobl a allai gael eu cefnogi neu gael budd o'ch prosiect yn dod o un neu fwy o'r cymunedau penodol hyn, dywedwch wrthym pwy ydyn nhw.

Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?

Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu arall:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno eich prosiect.

Er y gallwn ariannu cost gyfan y prosiect, dylech esbonio pam na allwch godi unrhyw ariannu arall naill ai o'ch adnoddau eich hun neu o ffynonellau eraill.

[Maes testun - 500 gair]

Ein hegwyddorion buddsoddi

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033.

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Ar gyfer y rhaglen Coetiroedd Bach - drwy fodloni'r meini prawf Coetir Bach, rydych wrth reswm yn bodloni un neu fwy o'n Hegwyddorion Buddsoddi.

I gwblhau'r adran hon o'r ffurflen gais, cyfeiriwch at adrannau 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau?' a 'Beth yw Coetiroedd Bach?' yr Arweiniad Ymgeisio Coetiroedd Bach.

Yn y ffurflen gais o dan yr adran hon, gofynnir i chi lenwi gwybodaeth o dan ein pedair Egwyddor Fuddsoddi. Ar gyfer eich prosiect Coetiroedd Bach, dilynwch y cyfarwyddiadau isod i gwblhau'r adran hon:

- Rhowch Dd/B o dan yr Egwyddor Fuddsoddi 'Sut fydd eich prosiect yn achub treftadaeth'
- O dan yr Egwyddor Fuddsoddi 'Sut fydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd' – dywedwch wrthym sut mae eich prosiect yn bodloni meini prawf ffisegol Coetiroedd Bach a rhowch y datganiad a ganlyn y byddwch yn bodloni'r nodweddion hyn: "Bydd y Coetir Bach yn cael ei sefydlu a'i gynnal a chadw fel y nodir yn arweiniad Earthwatch, o dan oruchwyliaeth tîm Ceidwaid Coed a fydd yn cwblhau'r hyfforddiant Earthwatch angenrheidiol."
- O dan yr Egwyddor Fuddsoddi 'Esboniwch sut fydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad' – dywedwch wrthym sut mae eich prosiect yn bodloni nodweddion cymdeithasol y meini prawf Coetiroedd Bach.
- Rhowch Dd/B o dan yr Egwyddor Fuddsoddi 'Sut fydd eich prosiect yn gwella cynaladwyedd sefydliadol'

Cyflwyno eich prosiect

Pam mai eich sefydliad chi yw'r un gorau i gyflwyno'r prosiect hwn?

Dywedwch wrthym pam y dylai eich sefydliad chi'n benodol redeg y prosiect hwn.

Gall hyn gynnwys:

- unrhyw brofiad sydd gan eich sefydliad o redeg prosiectau tebyg
- gwybodaeth a sgiliau staff a/neu aelodau Bwrdd ac Ymddiriedolwyr
- capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect ar yr un pryd â'ch gwaith arferol
- eich cysylltiadau â phrosiectau neu sefydliadau perthnasol eraill

[Maes testun - 500 gair]

Sut fyddwch chi'n rheoli cyflwyniad eich prosiect?

Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn cael ei reoli o ddydd i ddydd ac am y bobl a fydd yn ymwneud ag ef.

Dylai hyn gynnwys dweud wrthym:

- pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r prosiect
- sut y byddwch yn gweithio gydag Earthwatch, CNC a Llywodraeth Cymru
- sut y byddwch yn sicrhau bod y prosiect yn cysylltu â'r Goedwig Genedlaethol i Gymru
- bwy fydd yn gwneud penderfyniadau, profiad y bobl sy'n cymryd rhan a'u rolau yn y prosiect
- am swyddi staff, prentisiaid, hyfforddeiaethau, neu unrhyw gyfleoedd cyflogedig eraill, y bydd eich prosiect yn eu creu
- am unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli y bydd eich prosiect yn eu creu. Gwirfoddolwyr yw pobl sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu cyflwyno eich prosiect
- os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect, dywedwch wrthym beth yw eu cymwysterau ar gyfer y rôl

Cofiwch, rhaid i chi hysbysebu pob swydd staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?

Dywedwch wrthym bwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Hoffem weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Os oes gennych un, gallwch ei uwchlwytho yma.

Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Does dim angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod sefydliad arall yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

Uwchlwythwch gytundeb partneriaeth.

[Dewis ffeil]

Sut fyddwch yn gwerthuso eich prosiect?

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n unigolyn neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Byddem yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?

Dylai eich prosiect cyfan ddigwydd yng Nghymru i fod yn gymwys ar gyfer y rhaglen Coetiroedd Bach yng Nghymru. Dylech felly ateb bydd i'r cwestiwn hwn.

Mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

Dywedwch wrthym am unrhyw heriau allweddol neu risgiau posibl i'ch prosiect yr ydych wedi'u nodi.

Rydym yn gwybod bod pob prosiect yn wynebu heriau a risgiau. Dywedwch wrthym am yr heriau neu'r risgiau yr ydych wedi'u nodi, a allai effeithio ar eich prosiect.

Dylai eich cofrestr risgiau ddarparu gwybodaeth fanylach am yr heriau neu'r risgiau hyn a sut y byddwch yn eu rheoli.

Byddem yn disgwyl gweld cronfa wrth gefn yn eich costau prosiect i helpu rheoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd.

[Maes testun - 500 gair]

Costau prosiect

Dywedwch wrthym faint y bydd yn ei gostio i gyflwyno eich prosiect

Dylech gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Cyfeiriwch at yr Arweiniad Cyllideb am fwy o wybodaeth. Cofiwch gynnwys costau cyfieithu Cymraeg, a chostau cydnabyddiaeth a/neu ddehongli.

Bydd angen i chi ychwanegu cost newydd ar gyfer pob cost prosiect wahanol.

Er enghraifft, os ydych yn recriwtio tri aelod staff newydd i reoli'ch prosiect, bydd angen i chi ychwanegu tair cost staff newydd wahanol. Bydd angen i bob cost fod â'i disgrifiad a'i swm ei hun.

Os ydych yn hawlio TAW ar unrhyw un o'ch costau prosiect, cofiwch sicrhau'n gyntaf na ellir ei hadennill trwy ffynonellau eraill. Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau arian parod yw cronfeydd eraill y disgwyliwch eu derbyn tuag at gost eich prosiect. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad arian parod gan eich sefydliad eich hun.

Os ydy: Uwchlwythwch dystiolaeth. Gallai hwn fod yn llythyr yn cadarnhau'r cynnig neu'n gopi o gyfriflenni banc yn dangos yr arian yn eich cyfrif.

A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yw pethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes angen i chi dalu amdanynt.

Er enghraifft, defnyddio ystafell mewn busnes lleol, neu ddeunyddiau a roddir gan gwmni lleol.

Rhowch amcangyfrif o faint y byddai hyn wedi'i gostio os oedd angen i'ch prosiect dalu amdano.

Dogfennau ategol

Cyfeiriwch at y dudalen we dogfennau ategol Coetiroedd Bach ar gyfer y ddogfen ychwanegol sydd eu hangen yn ychwanegol at ein dogfennau ategol safonol a amlinellir isod. Rhaid cyflwyno hon fel atodiad i'ch cais:

- **rhestr wirio mesur llwyddiant** – bydd hyn yn ein helpu gwirio sut mae eich prosiect yn cyflawni'r meini prawf Coetiroedd Bach

Cofiwch uwchlwytho'r dogfennau a ganlyn gyda'ch cais:

- tystiolaeth o Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) (os yn berthnasol)
- dogfennau perchnogaeth - mae'r ddogfen hon/dogfennau hyn yn **orfodol**
- arolwg cyflwr (os yn berthnasol)

Gellir uwchlwytho'r rhain o dan yr adran 'Tystiolaeth o Gefnogaeth' ar ddiwedd y ffurflen gais.

Fel rhan o'n proses ymgeisio safonol, bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol, a amlinellir isod.

Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau gorfodol a ganlyn:

- dogfen lywodraethu
- gwybodaeth cyfrifon
- cynllun prosiect a chofrestr risgiau

Dogfen lywodraethu (er enghraifft, cyfansoddiad)

Rhaid i chi ddarparu copi o ddogfen lywodraethu eich sefydliad.

Rhaid bod gennych o leiaf ddau berson ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn perthyn i'w gilydd trwy waed neu briodas, nac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Dylai eich dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- enw cyfreithiol a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu nid-er-elw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd neu berson awdurdodedig arall

Ni allwn ariannu eich sefydliad os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod. Mae'r Comisiwn Elusennau'n darparu arweiniad ar greu dogfen lywodraethu.

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethu os ydych yn:

- sefydliad cyhoeddus, er enghraifft, awdurdod lleol neu brifysgol
- perchennog preifat treftadaeth
- elusen sy'n gofrestredig gyda Chomisiynau Elusennau Cymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu Reoleiddiwr Elusennau'r Alban

Cyfrifon

Uwchlwytho cyfrifon eich sefydliad.

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd.

Mae angen i gyfrifon fod:

- yn **enw cyfreithiol** eich sefydliad
- **â dyddiad arnynt**
- â **llofnod mewn llawysgrifen**. Nid yw hyn yn cynnwys llofnodion digidol
- cynnwys **teitl** y sawl sy'n eu llofnodi. Rhaid i'r person hwn fod yn gyfarwyddwr, ymddiriedolwr, cyfrifydd, neu berson uwch arall yn eich sefydliad

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis, rhaid hefyd i chi ddarparu tri mis o'ch cyfriflenni banc diweddaraf. Dylai hyn fod y tri mis cyn y dyddiad yr ydych yn cyflwyno eich cais.

Os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nid oes gennych set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf, neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau bod eich sefydliad wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus, er enghraifft awdurdod lleol neu brifysgol.

Uwchlwythwch eich cyfrifon [Dewis ffeil]

Cynllun prosiect a chofrestr risgiau

Uwchlwytho eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risgiau.

Rhaid i bob prosiect gyflwyno cynllun prosiect a chofrestr risgiau. Argymhellwn i chi ddefnyddio'r templed ar ein gwefan – bydd dolen i hwn yn y ffurflen gais. Noder bod gan y templed ddwy dudalen – un ar gyfer y cynllun prosiect ac un ar gyfer y gofrestr risgiau.

Uwchlwythwch eich cynllun prosiect a chofrestr risgiau [Dewis ffeiliau]

Disgrifiadau swydd

Uwchlwytho disgrifiadau swydd ar gyfer unrhyw staff neu brentisiaid newydd.

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi gyflwyno disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Os ydych yn symud aelod presennol o staff i rôl ar y prosiect, neu'n ymestyn ei oriau i gefnogi'r prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd o hyd.

Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

Uwchlwythwch unrhyw ddisgrifiadau swydd [Dewis ffeil]

Briffiau

Uwchlwytho briffiau ar gyfer unrhyw waith a gomisiynir.

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich prosiect.

Os ydych yn comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu bensaer, dylech ddarparu brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio.

Gallwch ddod o hyd i dempled o frîff ar ein gwefan.

Uwchlwythwch unrhyw friffiau ar gyfer gwaith [Dewis ffeil]

Adennill costau llawn

Uwchlwytho cyfrifiadau ar gyfer adennill costau llawn.

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yng nghostau eich prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn.

Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

Uwchlwythwch eich cyfrifiad adennill costau llawn [Dewis ffeil]

Delweddau

Uwchlwytho delweddau o'r prosiect.

Darparwch hyd at chwe delwedd sy'n helpu rhoi darlun o'ch prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- delwedd o fap o'r ardal yn dangos y lleoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect, os yw'n digwydd ar draws mwy nag un lle neu ar draws ardal eang.

Gwnewch yn si?r bod gennych bob caniatâd sydd ei angen i rannu'r delweddau hyn gyda ni, gan y byddwn o bosibl yn defnyddio'r rhain i ddweud wrth bobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio unrhyw ddelweddau a anfonwch atom i hyrwyddo'ch prosiect yn gyhoeddus.

Uwchlwythwch unrhyw ddelweddau [Dewis ffeil]

Tystiolaeth o gefnogaeth

Defnyddiwch yr adran hon i uwchlwytho unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol sy'n benodol i Coetiroedd Bach yng Nghymru. Gallwch uwchlwytho hyd at chwe dogfen ychwanegol.

Uwchlwythwch unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth [Dewis ffeil]

Dilynwch y camau nesaf ar y porth i gyflwyno'ch cais.

Caiff crynodeb o'ch holl atebion ei ddangos i chi.

Bydd gennych yr opsiwn hefyd i fynd yn ôl a newid ateb os oes angen.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais:

1. Byddwn yn anfon e-bost atoch cyn bo hir gyda rhif cyfeirnod prosiect.
2. Byddwn yn gwirio'ch cais a'r wybodaeth a ddarparwyd, i sicrhau bod gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu'ch cais. Bydd hyn yn cynnwys gwirio eich bod wedi darparu'r holl ddogfennau ategol priodol.
3. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth neu ddogfennau os bydd angen.
4. Byddwn yn gwirio eich cais ac unwaith y bydd gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais, byddwn yn rhoi ein penderfyniad i chi ym mis Gorffennaf 2024.

Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

- **28 Mawrth 2024**: ychwanegwyd gwybodaeth am ddogfennau llywodraethu yn yr adran Dogfennau ategol, ac eglurwyd sut y gallwch ddweud wrthym am y grwpiau cymunedol penodol y byddwch yn eu cynnwys yn eich prosiect. Fe wnaethom ychwanegu cwestiwn newydd 'Ydych chi eisiau ychwanegu cyfeirnod grid?' ar gyfer prosiectau sy'n digwydd ar draws ardal fawr, mewn mwy nag un safle neu mewn man sy'n anodd dod o hyd iddo gan ddefnyddio cod post.

Arweiniad cyllideb: Coetiroedd Bach yng Nghymru

21/02/2024

See all updates

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar gyllidebau i'ch helpu i lunio'r cais am ariannu ar gyfer Coetiroedd Bach yng Nghymru.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Budget guidance: Tiny Forest in Wales as PDF(167.25 KB)	167.25 KB
PDF Gweld Arweiniad cyllideb: Coetiroedd Bach yng Nghymru as PDF(187.88 KB)	187.88 KB

Defnyddiwch yr arweiniad hwn i'ch helpu llenwi adran costau prosiect eich cais. Darllenwch yr Arweiniad Ymgeisio Coetiroedd Bach llawn cyn gwneud cais.

Ymhelaethir ar yr holl bwyntiau isod mewn manylder digonol yn y sesiynau hyfforddi Coetiroedd Bach, sydd i'w cynnal ar ôl i'r penderfyniadau ariannu gael eu gwneud.

Ffi Aelodaeth Coetir Bach

Rhaid i chi gynnwys llinell yn y gyllideb ar gyfer aelodaeth o Eathwatch a hyfforddiant. Mae dau opsiwn ar gyfer y ffi aelodaeth Coetir Bach. Mae'r ffi hwn fesul safle Coetiroedd Bach a bydd angen i chi gymryd hwn i ystyriaeth yn eich cyllideb ar gyfer pob Coetir Bach hyd yn oed os ydych yn gwneud cais am nifer o safleoedd o fewn yr un cais. Noder mai taliad unigol yw hwn (ac nid ffi aelodaeth blynyddol).

£750 y Coetir Bach (y dull a ffafrir):

- Ymwneud â rhaglen ymchwil genedlaethol ar fanteision amgylcheddol a chymdeithasol coetiroedd trefol fel ateb sy'n seiliedig ar natur.
- Cofrestru fel rhan o'r rhwydwaith Coetiroedd Bach gyda thudalen broffil benodol ar gyfer eich coetir
- Derbyn manylion mewngofnodi i'r porth i gael mynediad i'n holl adnoddau Coetir Bach a gofod fforwm i rannu gwybodaeth a chwestiynau ar draws y rhwydwaith Coetiroedd Bach
- Cael mynediad i bob arolwg (ee arolygon bioamrywiaeth a dal carbon) i gefnogi monitro eich coetir.
- Dod yn rhan o rwydwaith Ceidwaid Coed y Coetiroedd Bach. Bydd gwirfoddolwyr â diddordeb yn cael mynediad i weminarau, digwyddiadau, cylchlythyrau a chyfleoedd eraill i ymgysylltu cymaint â phosib â'u coetir.

£250 y Coetir Bach:

- Ymwneud â rhaglen ymchwil genedlaethol ar fanteision amgylcheddol a chymdeithasol coetiroedd trefol fel ateb sy'n seiliedig ar natur.
- Cofrestru fel rhan o'r rhwydwaith Coetiroedd Bach gyda thudalen broffil benodol ar gyfer eich coetir
- Derbyn manylion mewngofnodi i'r porth i gael mynediad i'n holl adnoddau Coetir Bach a gofod fforwm i rannu gwybodaeth a chwestiynau ar draws y rhwydwaith Coetiroedd Bach
- Cael mynediad i bob arolwg (ee arolygon bioamrywiaeth a dal carbon) i gefnogi monitro eich coetir.

Cyfalaf a refeniw – costau cymwys

Mae'n bwysig i chi nodi pa rai o gostau eich prosiect sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Gall ceisiadau gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

Costau cyfalaf

Gwariant cyfalaf yw arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi a phethau a fydd yn creu twf yn y dyfodol.

Rhoddir enghreifftiau o gostau cyfalaf derbyniol isod. Sylwer **nad rhestr derfynol mo hon** ac y bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried ar sail yr achos unigol:

- Prynu 600 o goed brodorol (yn Tarddu o'r DU ac wedi'u Tyfu yn y DU), £1,500 - £2,500 fel arfer gan ddibynnu ar rywogaethau
- Prynu a gosod Byrddau dehongli, tua. £200 - £300 (bydd brand a dyluniad y Coetiroedd Bach yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru)
- Prynu cit monitro ar gyfer pedair maes ymchwil: Cysur Thermol, Storio Carbon, Bioamrywiaeth, Lliniaru Llifogydd, tua. £500. Gallai rhestr y cit gynnwys: taflenni, bag offer (70L), cansenni pren, tâp mesur, pêl o linyn, rhestr rhywogaethau coed, canllaw adnabod coed, siswrn, caliperau, pren mesur metel, mesurydd trwytho (pibellau), stopwats, gordd bren, jygiau mesur, planciau pren, poteli d?r, mesuryddion treiddio poced, trywelion, gorsaf dywydd, trybedd a throed addasu, canllawiau adnabod bioamrywiaeth, taflenni maes. Bydd Earthwatch yn rhoi cyngor ar hyn.
- Ystyriwch unrhyw arolygon y gallai fod angen eu gwneud ar gyfer yr ardal: cyfleustodau, o bosibl AEA, arolwg halogiad, ac ati. (Ceir manylion yn yr adran 'Arolygon' isod)
- Paratoi'r safle, megis gwaith daear, gosod ffensys, clirio sbwriel a llystyfiant. Mae ffioedd contractwr ar gyfer paratoi tir fel arfer oddeutu £8,000 - £13,000 gan ddibynnu ar y contractwr, cyflwr y safle a'r ardal ddaearyddol. (Ceir manylion yn yr adran 'Paratoi Tir' isod)
- Adeiladu llwybrau a gatiau hygyrch gydag ymrwymiad i'w cadw ar agor i'r cyhoedd a'u cynnal am o leiaf 20 mlynedd, os nad am gyfnod amhenodol
- Creu llwybrau natur/addysgiadol
- Creu mannau ar gyfer hamdden, chwarae ac addysg (fel ystafell ddosbarth awyr agored)
- Meinciau/seddi
- Amser staff i gyflwyno'r prosiect (Mae hyn yn golygu costau sy'n eich helpu i greu'r Coetiroedd Bach, er enghraifft: cynllunio'r prosiect, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol ar y prosiect, casglu, a dadansoddi gwybodaeth reoli cyflwyno'r prosiect, nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm y gost cyfalaf) (ceir manylion yn yr adran 'Amser Staff' isod)
- Cynnal a chadw'r Coetir Bach hyd nes bod y canopi'n cau, tua 3 blynedd fel arfer (ceir manylion yn yr adran 'Cynnal a Chadw Parhaus' isod)
- Cyflwyno'r prosiect (Mae hyn yn golygu costau sy'n eich helpu i greu'r Coetiroedd Bach, er enghraifft: cynllunio'r prosiect, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol ar y prosiect, casglu, a dadansoddi gwybodaeth reoli cyflwyno'r prosiect, nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm y gost cyfalaf)
- Darpariaeth Gymraeg, megis costau cyfieithu

Costau refeniw

Gall cyllid refeniw helpu gyda'r gost gyffredinol o redeg y prosiect. Mae'n cynnwys costau sy'n cael pobl i fod yn rhan o waith cyflawni'r prosiect.

Gellir defnyddio arian refeniw i wneud y canlynol:

- cyfraniad at gostau craidd/gweithredu ychwanegol rhedeg y prosiect
- digwyddiadau i hyrwyddo'r cynllun coetir i'r gymuned ehangach, ac i ddathlu cyflawniadau cymunedol
- oriau ychwanegol i gydlynydd gwirfoddolwyr presennol recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r coetir
- arferion da gwirfoddoli a threuliau (yn unol â chanllawiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)
- gweithgarwch hybu'r prosiect
- unrhyw wariant rhesymol a fydd yn galluogi'r prosiect i lwyddo

Costau anghymwys

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o gostau **nad ydyn nhw'n gymwys**. Dydy hon ddim yn rhestr hollgynhwysfawr, a bydd pob un o'r eitemau gwariant yn cael eu hystyried fesul achos:

- prynu tir
- cost prydlesu tir
- prynu adeiladau
- ail-stocio coed ar safle lle mae'r coed wedi'u cwympo
- gwaith rydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am ymgymryd ag ef
- unrhyw waith ffisegol ar y safle a wnaed cyn y dyddiad awdurdodedig ar gyfer dechrau'r gwaith
- prynu cerbydau
- eich costau llafur a chyfarpar eich hun
- peiriannau a chyfarpar canolig/mawr
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol
- costau cynnal a chadw
- cyfalaf gweithio
- TAW y gellir ei adhawlio
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu, fel lwfans y prydleswr, llog cost ariannu, gorbenion a chostau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu adnoddau cymorth ariannol eraill - yn cynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu gostau eraill
- gorbenion wedi'u dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau sy'n faterol uwch na'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer unrhyw waith tebyg a wnaed gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau am weithgarwch o natur wleidyddol
- dibrisio, amorteiddiad ac amhariad ar asedau a brynwyd gyda chymorth y grant

Costau nad ydyn nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni eich prosiect, gan gynnwys:

- darpariaethau
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- difidendau
- costau llog
- taliadau gwasanaethau o ganlyniad i brydlesau cyllid, trefniadau hurbwrcasu a chredyd

- costau sy’n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy’n gysylltiedig â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau i bensiynau heb eu hariannu
- iawndal am golli swydd
- dyledion drwg sy’n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy’n gysylltiedig ag unrhyw un o’r rhain
- taliadau am anrhegion neu roddion
- adloniant, er enghraifft, partïon staff
- dirwyon a chosbau statudol
- dirwyon troseddol ac iawndal
- treuliau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha

Arolygon

Ystyriwch unrhyw arolygon y gallai fod angen eu gwneud ar gyfer yr ardal: cyfleustodau, o bosib AEA, arolwg halogiad, etc. Hefyd, mae methodoleg y Coetir Bach yn cynnwys arolwg gorfodol o gyflwr y pridd, cywasgiad a chyfansoddiad – cost fras y pecyn profi ar gyfer hyn (offer tynnu creiddiau pridd, mesurydd treiddio, pecyn profi maetholion, etc) yw £400. Os ydych yn gwneud cais am nifer o Goetiroedd Bach dim ond un pecyn profi pridd sydd ei angen arnoch.

Paratoi Tir

Mae ffioedd tirlunio ar gyfer paratoi tir fel arfer oddeutu £8,000 - £13,000 gan ddibynnu ar y contractwr, cyflwr y safle a'r ardal ddaearyddol. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- Sgan CAT o'r ardal blannu a chloddio 3x pwll prawf
- Paratoi'r safle yn unol â methodoleg Miyawaki:
    - Marcio'r safle allan. Tynnu'r haen o lystyfiant, ei storio ar y safle a'i adleoli i waelod yr ardal a gloddir
    - Tynnu'r haen uwchbridd, storio ar y safle
    - Cloddio ardal y Coetir Bach i'r dyfnder gofynnol
    - Ôl-lenwi'r ffos gyda hanner y pridd a gloddiwyd
    - Cyflenwi ac ymgorffori hanner yr ychwanegion pridd
    - Ôl-lenwi'r ffos gyda gweddill y pridd a gloddiwyd ac ymgorffori gweddill yr ychwanegion pridd.
    - Rhoi'r uwchbridd yn ôl fel yr haen olaf
- Rhoi rhwystr dros dro o amgylch y safle nes bod y ffensys wedi'u gosod
- Cyflenwi taenfa naddion pren aeddfed i ddyfnder o 50-100mm i wirfoddolwyr ei gosod
- Cyflenwi a gosod ffensys a giât
- Cyflenwi a gosod 6 slab concrit (teils bioamrywiaeth)
- Cyflenwi a gosod naddion pren yn y man eistedd/llwybrau i ddyfnder o 100mm
- Cyflenwi a gosod meinciau – fel arfer 5 mainc yn null ysgol goedwig os bydd ardal ystafell ddosbarth ar y safle
- Cyflenwi a gosod 2 bostyn pren ar gyfer panel dehongli. Gosod panel dehongli
- Adfer y safle a'r ardal gyfagos y mae'r gwaith wedi effeithio arni

Amser Staff

Cyflwyno'r prosiect (Mae hyn yn golygu costau sy'n eich helpu i greu'r Coetiroedd Bach, er enghraifft: cynllunio'r prosiect, caffael deunyddiau, rheolaeth ariannol ar y prosiect, casglu, a dadansoddi gwybodaeth reoli cyflwyno'r prosiect, nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm y gost cyfalaf). Gallai ystyriaethau penodol gynnwys:

- Asesiad o'r safle, profi a dadansoddi'r pridd - amcangyfrif o 2 ddiwrnod a theithio
- Diwrnod plannu, fel arfer 2 aelod o staff ar 2 ddiwrnod ar gyfer paratoi a chyflwyno
- Gweithgareddau cymunedol ar ôl plannu. Gallwch chi gynllunio pa weithgareddau rydych eisiau eu rhedeg, e.e. gwyddoniaeth dinasyddion
- Gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion
- Amser rheoli prosiect ar gyfer cysylltu â rhanddeiliaid, ymgynghori â'r gymuned, rheoli digwyddiadau, hyrwyddo digwyddiadau, trefniadau tirlunio, etc.
- Amser dylunio'r coetir, rhestr rhywogaethau coed

Cynnal a Chadw Parhaus

Dylech fod yn cynllunio i gynnwys eich cymuned leol yn y gwaith o gynnal a chadw'r Coetir Bach. Gall gweithgareddau cynnal a chadw nes bod y canopi coed yn cau (tua 3 blynedd) gynnwys:

- Chwynnu
- Dyfrhau
- Trwsio ffensys, giât neu o bosib ailstocio os bydd difrod i'r safle

Dogfennau ategol: Coetiroedd Bach yng Nghymru

See all updates

Dogfennau ategol y mae angen eu cyflwyno gyda'ch cais Coetiroedd Bach.

Atodiad	Maint
FILE Gweld Measuring success checklist as FILE(5.77 KB)	5.77 KB
FILE Gweld Rhestr Wirio Mesur Llwyddiant as FILE(6.09 KB)	6.09 KB

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 21 Chwefror 2024

Pwysig

Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau Rownd 3 yw **8 Mai 2024**. Darllenwch yr Arweiniad Ymgeisio Coetiroedd Bach llawn cyn gwneud cais.

Gallwch lawrlwytho’r ddogfen ganlynol o’r dudalen hon (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg):?

- rhestr wirio mesur llwyddiant – bydd hyn yn ein helpu gwirio sut mae eich prosiect yn cyflawni'r meini prawf Coetiroedd Bach

Rhaid i chi lenwi hwn a'i atodi i'ch cais.

Cyfeiriwch at yr arweiniad cyllideb i'ch helpu i lenwi adran costau prosiect eich cais.

Gweler y nodiadau cymorth ymgeisio Coetiroedd Bach i gael rhagor o fanylion am yr holl ddogfennau ategol sydd eu hangen.?

Cydnabod eich grant

Cael gwybod sut i gydnabod eich grant?Coetiroedd Bach yng Nghymru.?

Cymorth technegol

I gael cymorth technegol ?neu gyda hygyrchedd, cysylltwch â'n tîm gwasanaeth cwsmeriaid naill ai drwy e-bost yn enquire@heritagefund.org.uk neu dros y ffôn ar 020 7591 6044.?

Gallwch ddarllen mwy am y mathau eraill o gymorth y gallwn ei ddarparu drwy gydol eich proses ymgeisio.